

DANIEL, JOHN (1755? - 1823), argraffydd yng Nghaerfyrdin

Enw: John Daniel
Dyddiad geni: 1755?
Dyddiad marw: 1823
Priod: Ann Daniel
Rhyw: Gwryw
Gawledigaeth: argraffydd
Maes gweithgaredd: Argraffu a Chyhoeddi
Awdur: William Llewelyn Davies

Mab ffermwyr a oedd yn byw yn rhywle yng ngwaelod Sir Gaerfyrdin. Wedi gorffen ei brentisiaeth saith mlynedd gyda **John Ross** yng Nghaerfyrdin, aeth i Lundain lle y bu yng ngwasanaeth argraffwyr y brenin. Priododd yn Llundain, dychwelodd i Caerfyrdin, a sefydlu ei fusnes ei hun yno yn 1784. Argraffodd lu o lyfrau a daeth i gael ei ystyried gyda'r goreuon yng Nghymru yn ei gyfnod; barna **Ifano Jones** (*History of Printing and Printers in Wales*) mai ef oedd y gorau i gyd, cyn i **William Rees**, Llanymddyfri, a **William Spurrell**, Caerfyrdin, ddyfod i'r maes. Yn y blynnyddoedd 1791, 1793, a 1794 ceir Daniel a'i hen feistr, **John Ross**, yn cyduno i argraffu rhai llyfrau, eithr heb fod yn bartneriaid. Pan oedd **John Ross** yn argraffu trydydd argraffiad 'Beibl Peter Williams' (pedwarplyg) yn 1796, argraffodd Daniel 4,000 copi o'r Beibl yn Gymraeg (wythplyg). Efe oedd y cyntaf yng Nghymru i argraffu nodau cerddorol ('Yr Hen Nodiant'), sef yn 1797, pan argraffodd **Cyfall mewn Llogeil**, gwaith **John Williams** ('Siôn Singer'). Efe hefyd oedd argraffydd **The Carmarthen Journal** ar gychwyn gyfra'r newyddiadur hwnnw; dyddiad y rhifyn cyntaf oedd 3 Mawrth 1810. Ym mis Hydref 1800 cawsai ryddfreiniad bwreisidref Caerfyrdin. Bu farw 10 Ionawr 1823, a chladdwyd ef ym mynwcent Llangunnor; claddesid ei wraig, Ann, yn yr un fynwent ychydig yn gynt, sef ar 2 Ebrill 1822.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

Ifano Jones, *A history of printing and printers in Wales to 1810, and of successive and related printers to 1923* (Cardiff 1925)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733362](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Davies, W. Ll., (1953). DANIEL, JOHN (1755? - 1823), argraffydd yng Nghaerfyrdin. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-DANI-JOH-1755>



LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nosbarwr
Llyfrgell Cymru
Sponsored by
Welsh Government